

LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri Lightning Zip Fasteners (rhan o ICI) ac ICI, Waunarlwydd, Abertawe

Cyfwelai: VSW034 Mrs Averil Berrell

Dyddiad: 2: 03: 2014

Cyfwelydd: Catrin Stevens ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary at the end of the Welsh text

Cadarnhaodd Averil mai'i henw yw Averil Berrell ac mai 'Matthews' oedd ei henw cyn priodi. Nododd ei chyfeiriad a'i dyddiad geni: 18: 4: 38.

Cafodd ei geni '**fi'n credu**' y tu fas i Felindre. Mewn *small holding* ond wedyn symudodd y teulu, fel bod ei chwaer (sydd flwyddyn a mis yn iau na hi) wedi'i geni ar y mynydd uwchben Pontarddulais – Craig Fawr oedd enw'r tŷ. Noda nad 'mynydd Garnswllt' yw'r enw cywir am y mynydd hwn.

Meddai:

'Fi 'di rhedeg lan a lawr hwnna milodd o weithe, ch'mbod, achos amser on i'n byw lan 'na, odd y bys yn dod miwn i sgwâr Glyn-hir (Pontarddulais), a bydde'n dreifwr neu'r conductor yn gweld ni ar ben y mynydd yn rhedeg, a bydden nhw'n sefyll i ni. Nelen nhw ddim o hwnna nawr, nelen nhw?'

Aeth Averil i ysgol gynradd Pontarddulais '**a dorres i nghalon**'. Roedd hi'n bump oed. Bydden nhw'n mynd lawr i siopa o ben y mynydd i Bontarddulais bob dydd Gwener a odd hi ddim wedi meddwl bod neb arall yn byw yn unman arall! Pan adawodd ei mam hi yn yr ysgol – cafodd yr athrawes Miss Alexander drafferth gyda hi '**on i'n pain iddi, ... odd pawb arall, on nhw'n gyfarwydd - yn nabod y plant. Gerddes i mas o'r ysgol a ffindiodd rhywun fi ar y pafin, on i ddim yn gwobod pwy ffordd i fynd a on i'n lfenfren ...'** Oherwydd hyn cafodd ei chwaer ddechre'r ysgol yn beder oed.

Buodd hi'n y ddwy ysgol – y babanod a'r iau a wedyn lan i *Top School – Y Secondary Mod.* '**Ath y cream ... Geses i ringworm amser on i'n byti naw fi'n credu a on i gartre o'r**

ysgol am flwyddyn. So lle on i'n y *scholarship class*, on nhw'n galw fe' ond roedd y rhai yn y *scholarship class* wedi cael blwyddyn ychwanegol – felly '*no way*'. Ond wedyn daeth hi i'r brig pan aeth hi i'r *Top School* achos roedd y *cream* wedi mynd i Dre-gŵyr – y *grammar school* – bechgyn a merched.

3.05

Och chi siwr o fod yn drist am hynna och chi? Bo chi ddim wedi cal y cyfle ...

Na on i ddim yn drist. On i'n enjoio bod *one, two, three ...* chi'n gwbod pan chi'n cal 'ch reports – *one, two, three*

Och chi ar y top fan 'na?

On i'n very thrilled.

Faint odd 'ch oed chi'n gadel ysgol wedyn?

Undeg pump.

Och chi'n gorffod gadel, ne beth odd y sefyllfa?

Na. ... amser o'n i'n (13) neu'n undeg pedwar, dath rhywun i'r ysgol i siarad ambyti typewrito a pethe fel 'na 'chmbod a *shorthand* a on i'n dwlu, a on i'n moyn neud e. Er fi'n flin nawr, cofiwch, licen i fod yn nyrs, amser fi'n meddwl am e nawr, ond ma'n rhy hwyr. Ond odd ysgol yn Rhydaman (sai'n cofio'i enw e nawr) ond ysgol fach, fach odd hi, dim ond neud *commercial subjects*, och chi'n neud *shorthand, typing, bookkeeping, English a Maths* a ethes i fan'na am flwyddyn.

Mae Averil yn cofio mynd lan gyda'i mam a'i ffrind Ann Lloyd o Efail-wen gerllaw ar y bys i Rydaman a chafodd gyfweiliad gan y brifathrawes. Bu hi yno am flwyddyn gyfan – '**On i'n dwlu arno fe. Och chi'n gorffod mynd mas i gino .. dim *school dinners ...***'

Pan oedd ar ei hail flwyddyn, pan oedd hi eisoes wedi cael rhai tystysgrifau arholiad – RSA (Royal School of Arts), neu LCC London Commercial College neu rywbeth, ond pan oedd hi gartre dros y Nadolig roedd ei Mam:

'yn mynd mlân a mlân achos bo ni'n gorffod talu am yr ysgol - ethes i a'n satchel un bore Llun – on i fod i fynd nôl i'r ysgol... (Gofyn a ydw i eisiau recordio'r hanes hwn...) achos o'n ni'n byw mor bell roedd wastad ffrindie gyda ni lawr fan '**na – och chi'n gallu gadel bags lawr yn tai cownsil y Bont'** (felly gadawodd ei bag yno a byddai'n ei gasglu ar y ffordd nôl). '**A on i wedi câl llond pen, llond ceg o'n fam yn conan, so jwmpes i ar y bys a ethes i i'r *Youth Employment Exchange* yn Pontarddulais, pan ethes i miwn (na ewn yntefe!)**

6.08

'Yes,' wedodd e 'What can I do for you?'

'I want to work please' wedes i 'and I want to work as a typist – a shorthand typist'

'Well' wedodd e 'funny thing, we've just had a job come through today from Lightning Zip Factory in Waunarlwydd'.

Wel i fi – on i ddim yn gwbod ble ddiawl odd hwnna, chmbod.

'Can you explain to me where to go and how to ...'

'Yes' wedodd e, 'walk from here (a yn Pontardulais Road odd hwn – lan ar y top ar bwys y siop, chwel) – walk down to the bus station, you'll catch a number 5 (na number six) over to Gowerton, you'll change in Gowerton and catch a number 17 and you can ask them to drop you by the ICI.'

Wel, on i ddim yn gwbod ble on i'n mynd – odd dim amcan 'da fi. A'r arian odd 'da fi odd 'n arian cino i, reit. So ethes i, des i off y bys, gerddes i lawr i'r ffatri – ffatri weddol newydd. Odd hi wedi dachre – wedi dod o Birmingham, wedi dachre yn Upper Bank yn Landore a wedyn – fi'n credu geson nhw grant, i agor hwn a odd lot yn dod o fan'ny ond on nhw ishe *office girl*. A na beth wedodd e wrtho i, *'If you start there and you can work your way up if you work hard.'*

A dyna fu. Cafodd hi'r swydd ac roedd hi'n dechrau am naw ac yn gorfod dala bys yn y Bont, a newid yn Gorseinon. Bu'n gwneud hyn am tua dwy-dair blynedd. Dechreuodd yno yn 1954 ac mae'n cofio'r dyddiad oherwydd:

'... Fi'n cofio ethes i a'n fam a'n whiorydd, trip ysgol y Bont nawr, ethon ni i'r Festival of Britain yn Llundan, ... a odd hwnna yn nineteen fifty one, ar ôl - nineteen fifty two buodd y brenin farw, a nineteen fifty three odd y Coronation a nineteen fifty four, dechreuodd Averil witho, a fi wedi gwitho ers hynny, er fi wedi enjio fe cofiwch, ma'n rhaid i fi weud y gwir.'

8.15

Roedd ei mam 'yn wyllt' pan sylweddolodd hi beth oedd Averil wedi'i wneud. Ei mam a'i thad am nad oedd wedi gwneud beth odd hi i fod i'w wneud.

'On nhw ddim yn mindio bo chi'n mynd i witho mewn ffatri?'

'O nag on.'

Ei phae cyntaf oedd £1 19s 11d am wythnos o waith a chafodd yr un peth am fisoedd. Yna cafodd *pay slip* un diwrnod ac roedden nhw wedi tynnu deg ceiniog oddi wrthi am *tax*, **'Wel, on i'n flabbergasted! – 10 cinog!'** Ond wedyn, ychydig o fisoedd yn ddiweddarach cafodd ei gwneud yn *staff member*, yn cael ei thalu bob mis ac agor cyfrif banc – lyfli!

Roedd ei thad yn golier a'i mam ddim wedi gweithio ar ôl priodi. Cyn hynny, roedd hi'n gwasanaethu yn nhŷ rhyw bregethwr yn Llundain gyferbyn â St Martins' in the Fields. Averil oedd yr hynaf yn y teulu **'so, chi'n gweld, on nhw gyd yn dilyn fi!'**, wedyn roedd Lena ei

chwaer arall hi – aeth hi ‘**achos bo fi wedi pigo gyts lan a mynd i witho**’, unwaith gorffennodd hi’r ysgol aeth yn syth i weithio yn y ffatri heb ofyn i’w mam na dim byd. Cafodd hi jobyn yn syth. Roedd ei chwaer Gwennie yn cael ffits, yn dilyn cwmpo allan o *high chair* a gan mai *flagstones* oedd ar lawr eu tŷ ffarm, aeth hi’n *unconscious* a chysgu am tua 72 awr, ac ers hynny mae wedi bod yn cael ffitiau. Mae’n dal yn fyw. Cred i Lena fynd i weithio i ffatri Hodges a Beryl ei chwaer arall i Lamas Jamas yn Fforest Fach (NODER nad yw hyn yn gywir – yn Hodges bu Beryl yn gweithio – gweler ei chyfweliad VSW050).

Dim agwedd yn y teulu fod gwaith ffatri ddim cystal. Roedd ei thad yn dwlu ar waith ffarm hefyd a’i gŵr wedyn ond doedd dim llawer o arian mewn gwaith o’r fath.

12.00

Cafodd gyfweliad ar gyfer gweithio yn Lightning Zips. Ddim yn gallu cofio beth oedden nhw wedi holi nac am beth roedden nhw’n chwilio. Roedd ‘certificates’ ganddi ond doedden nhw ddim arni’r diwrnod hwnnw. On nhw’n gwybod ei bod yn gallu teipio a gwneud tamed bach o *shorthand* ond ‘**yn y ffatris da, a odd Lightning Zip Factory yn un o’r rhai gore rownd ‘ma, och chi’n cal mynd i’r coleg neu i’r tech. unwaith yr wythnos, ta beth och chi’n moyn neud – os och chi’n gwitho ar y ffatri floor, yn service girl, ar y machines, on nhw gyd yn gorffod cal diwrnod off a mynd i tech. a neud – odd rheini fi’n credu yn gorffod neud Saesneg a Mathemateg ... basic’. On i’n neud Saesneg, Mathemateg a cario mlân gyda *Shorthand a Typing. ... Odd e’n marvellous, marvellous.***

Y cwmnïau oedd yn gwneud hyn odd ICI, British Steel, GPO – Electricity Board. Odd Lightning Zips yn dod o dan ICI – daeth y cwmni yno o Birmingham. Dim ond zips oedd yn cael eu cynhyrchu yn y ffatri.

‘Fi’n cofio terylene zips yn dod mas, ... rhai neilon, terylene a dath y Director lawr o Birmingham i siarad ‘da ni yn y gwaith.’

(stori am weld y *Director* ymhen blynnydoedd wedyn yn Birmingham a’i adnabod – pan oedd ei mab. Ian, yn cael ei radd yn y Brifysgol yno.)

Mae’n cofio *chain zips* yn cael eu gwneud yn y gwaith hefyd. Roedd peiriannau yn y gwaith yn torri tsaeniau lan yn ddannedd (teeth) a menywod yn dod nhw gyda’i gilydd – fuodd hi ddim yn gwneud y rhain gan ei bod yn y swyddfa, ond roedd ffrindiau ganddi yn y ffatri.

Dim gwisg arbennig i fod yn y swyddfa – ‘**Odd dim lot ‘da fi i gâl**’. Cael gwisgo beth och chi’n moyn ac yn y ffatri ond odd y merched yno i gyd yn gwisgo *overalls* i gadw’u dillad yn deidi. Eu *overalls* nhw’u hunen odd y rheini – nid rhai’r ffatri.

14.31

Roedd hon yn ffatri bron yn newydd yn Waunarlwydd ac felly yn lân.

‘beautiful, beautiful – y staff toilets, workers’ toilets yn sheino – cleaners miwn dim ond i neud hynna. ... unrhyw un odd yn dod ‘na, odd neb byth yn gadel, oni bai bo nhw’n

mynd i gâl babis; pyrny odd pawb yn sefyll gartre gyda'ch plant – och chi ddim yn mynd i witho ar ôl câl plant fel ma nhw'n neud nawr.'

Yn y dechrau roedd hi fel *messenger girl* yn y swyddfa, rhedeg a mynd â'r *mail* i bobol. Odd swyddfeydd yn y ffatri felly roedd yn rhaid mynd trwy'r ffatri i fynd o un swyddfa i'r llall – i'r *dispatch office*. Yn y ffatri hefyd roedd '**nyrs lyfli**' ac ***ambulance room*** - os byddech chi ddim yn hwylus neu yn dost, odd 3-4 gwely yna. Odd y nyrs yn *qualified sister* – a os bydde cwt bach 'da chi a neb yn fodlon edrych arno gartre – yna mynd ag e i mewn at *Sister Jones* a byddech chi'n reit. Roedd hi'n llawn amser yn y gwaith.

Oriau gwaith 9 tan 5; ond 9 tan 4 ar ddydd Gwener. Dim shifft nos – fu hi ddim yn gweithio ar shifft nos (dim ond yn Securicor yn ddiweddarach).

Yn byw ym Mhontarddulais pan ddechreuodd hi yno – lan ar ben y mynydd.

'Rhedeg lawr o ben y mynydd i ddal y bys – o Bont i Gorseinon, wedyn o Gorseinon i Gowerton a o Gowerton i Waunarlwydd.

Roedd digon o fysics i gael a deg munud rhwng bob un – digon o amser i newid o un i'r llall. Ar y ffordd adre – roedd hi'n gallu dal bws y ffatri oedd yn teithio i'r Bont gyda'r gweithwyr – felly ddim yn gorfod newid bysys. Dim talu i fynd ar fws y gwaith.

I ddod i'r gwaith bysys yn dod o St Thomas, Fforest fach, y Bont, Gorseinon, Tre-gwyr erbyn hanner awr wedi saith, ond gan ei bod hi'n dechrau am naw doedd hi ddim yn gallu mynd ar y bws hwn, ond roedd yn gallu mynd adre arno.

Amcanu bod tua 250 o fenywod yn gweithio yn y ffatri – lot fawr ohonyn nhw yn doddi'r zips at ei gilydd, dynion yn y *chain department* yn doddi dannedd y zips yn barod o'r *wires*, dynion yn y *paint shop* – dim menywod yno; dau fforman yn y *dispatch*+ 3-4 dyn yn cario'r bocsys ar ôl i'r merched eu pacio i'r loris oedd yn dod i mewn bron bob dydd a mynd â'r stwff i '**66 North Road, Leeds**' oedd un *consignment* ac i Chiswick? na Brentford'. Merched odd yn doddi'r labeli arno.

Ar ôl i Averil fod yno am dipyn cafodd ei symud i'r *dispatch department* '**enjoies i hwnna. Och chi'n teipio invoices trwy'r amser ac wrth gwrs, beth bynnag oedd yr invoice, oedd hwnna'n gorfod matcho'r bocs cyn bod hwnna yn mynd at y lori a pethach fel'na**'.

Rhwng bod yn *messenger girl* ac ar *dispatch* bu hi'n gweithio yn teipio yn y swyddfa yn gwneud *orders* fwya, yn y *production line*.

20.19

Roedd hi'n cymysgu tipyn gyda'r merched ar lawr y ffatri. Doedd hi ddim yn meddwl bod ei ffrindiau hi oedd ar y llawr yn meddwl ei bod hi mewn swydd uwch na nhw, ond '**falle bod tamed bach bach**' o hynny yn wir. Cafodd y *Manager* a'r *Deputy Manager* eu hala lawr o Birmingham – cawson nhw dai (cyngor?) yn gloi achos bo nhw yn y jobyn yna, Mr Butcher oedd enw'r *Manager* a Mr Graves oedd y *Deputy*. Roedd merch Mr Graves yn gweithio yn y swyddfa yn yr ICI mawr.

Roedd hi'n gweithio yn y *dispatch* pan gaeodd y ffatri lawr. Bu hi'n gweithio yn Lightning Fasteners tan tua 1961-2; priododd hi yn 1959 ac roedd hi'n gweithio yn y Zips; ond ar ôl bod yn briod tair blynedd cafodd chwech ohonynt eu symud (**fi a Glenys – odd Glenys yn widw, odd, a pwy arall ath?**) Aeth tair ohonynt i'r ICI mawr ac aeth tair arall i'r *titanium factory* – roedd hon wedi agor erbyn hyn. Yn yr ICI mawr *ammunitions* on nhw'n neud adeg y rhyfel – odd *camouflage* gwyrdd a llwyd dros y bilding mawr. Gwneud *steel* on nhw pan aeth hi i weithio yna – ingots a slabs a'r *casting shop* yn rolío a rolío nhw nes bo nhw'n dene. Dynion oedd yn hon ran fwyaf – dim ond cwpwl bach o fenywod oedd yna. Cwpwl bach o fenywod yn yr ICI – yn yr *inspection department*, lot o ferched yn y swyddfeydd a'r un peth yn yr *extrusion mill* – merched yn y swyddfa a dynion a dynion yn y gwaith ei hunan.

Yn y Lightning Zips ar lawr y ffatri roedd hanner a hanner y *supervisors* yn ddynion/menywod. **'Ond odd e mor neis chwel, odd rhan fwya yn galw nhw 'da'u enw cynta.'** Nid Miss Howells ond Elaine

23.33

Newidiodd gwaith y ffatri tra bu hi yno o wneud *chain zips* i *terylene / nylon zips* – na fel on nhw'n gwella. **'A fi'n cofio trouser zips yn dod mewn. Achos trouser zip mae e'n straight am sbel a ma curve ar y gwaelod er mwyn i chi gallu gwnio fe mewn yn deidi i'r trowser.'** ...

Odd defnyddie'n brin ... yn y cyfnod o'ch chi 'na yn 1954.. ?

Na, on i'n cal popeth lawr o Birmingham, 'na'r *head office* ... ond wedi 'ny wi'n siwr bo ni wedi cal grant da'r Swyddfa Gymreig neu ta beth odd e – ne'r *Government* a wedyn, achos ar ôl bod 'na am sbel decidon nhw bo nhw'n caead e. A odd neb yn gwbod pam on nhw'n caead e.

Caewyd y ffatri zips yn gyfangwbl tua 1962. Ac anfonwyd popeth nôl i Birmingham. Doedd neb yn gwybod beth oedd y rheswm dros hynny. Cred Averil iddyn nhw drin y gweithwyr yn dda ar yr adeg hynny. Achos roedd dwy ffrind iddi (mae'n dangos llun un ohonyn nhw – flynyddoedd yn ddiweddarach) – ron nhw'n mynd i seino ar y dôl achos bo nhw wedi cael eu gwneud yn *redundant*, a wedyn yn mynd i'r Dragon (gwesty crand) am de! (cyfeiria at y lluniau eto).

'Amser on ni'n gwitho 'na, dechreuon ni fynd mas amser Nadolig. A fi'n credu on ni'n naw merch yn mynd 'da'n gilydd. ... odd rhain i gyd yn y swyddfeydd ... a deceidon ni bo ni'n mynd mas bob Nadolig i rywle neis. Cantîn lyfli yna, *'Music while you work'* a *'Workers' Playtime'* arno, bwyd lyfli yn y cantîn; a achos bo fi ddim yn gallu mynd 'da nhw pan on nhw'n mynd i'r Dragon, achos bo fi'n gwitho, deceidon ni gwrdd bob mish. Wel nawr te, o 1962 mlân, ni wedi cwrdda bob mish, nes - a ni *still* yn cwrdda nawr, a ni lawr i ddwy. Ond dyn ni ddim yn mynd nawr cweit bob mish, ni'n mynd bob hanner tymor. ...

Odd tamed bach o ddrygioni chmbod, yn mynd mlan yn y ffatri ...?

Amser Nadolig, odd.

Cred Averil eu bod nhw'n chwarae triciau ar ferched newydd ond doedd hi ddim yn gwybod beth oedden nhw. Chafodd hi mo hynny ei hun, ond mae'n cofio merched yn dweud eu bod yn eu hela i ercid pethach. Neu hela'r bechgyn ifanc – roedd *service boys* – gyda nhw hefyd – eu hanfon nhw i'r *stores* i ofyn am '*pound of this*' – pethach nad oedd modd eu cael ...

A on nhw'n mynd ond on nhw?, achos y peth yw, flynydde nôl, os odd rhywun yn gweud wrthoch chi am neud rhywbeth, och chi'n neud e, dim argiwo fel man nhw'n neud nawr.'

Bechgyn tua 15 oed fyddai'r rhain – a merched hefyd.

Odd ofon rhai merched arna i yn y ffatri.

Pam 'ny?

O, on nhw mor ffit a gas – w – ych-a-fi. Yn byw yn Tre-gŵyr, rhai ohonyn nhw. ... mwy ewn, mwy ffit, le on i *country bumkin*, yn hen ffasiwn, on nhw ddim, on nhw?

Beth odd iaith y ffatri? – achos ych chi'n Gymraes ...

O Sisneg. ... odd Gwyn Davies, un o'r *Managers*, - *Dispatch Manager*, odd e'n dod o Burry Port. Odd e'n siarad Cymrâg â fi, braidd neb arall.

28.22

A hyd yn oed, odd y merched i gyd – neb ohonyn nhw.

Mae'n ansicr pa driciau oedd yn cael eu chwarae adeg y Nadolig. Sonia am y saer yn y gwaith, Mr Griffiths, ei fod wedi gwneud stand i ddal *cutlery* iddi a bod hwn ganddi heddiw. Fe wnaeth e hwn iddi am ei fod yn ei hoffi (nid hi ofynnodd) '**am bo fi'n ferch neis – yn deidi**'. Sôn am ei bartner hefyd.

Odd iaith rhai o'r menywod yn fras?

Odd, odd, on i ddim yn lico fe.

Odd neb yn stopo hwnna?

Weithe bydde'r *supervisor* yn dweud, '*now cut it out*' neu rywbeth fel'na.'

Dim ond rhyw bump allan o tua cant o'r merched oedd yn siarad fel hyn – dim lot. Amser Nadolig, roedd y ffatri yn trefnu *Dinner dance* i'r gweithwyr ond fyddai hi byth yn mynd gan nad yw'n hoffi pethau fel yna. Roedd *Christmas Party* i'r plant ond doedd dim plant ganddi hi. Yn y cantîn y byddai hwnna'n cael ei gynnal.

Tua 50 o ddynion oedd yn gweithio yno. Llawer mwy o ferched. '**A unwaith och chi wedi dod i witho 'na, och chi'n palo lan 'da rhywun. Sai'n gwbod faint briododd o 'na**'.

30.36

Dim tîmau pel-droed na chorau na dim byd cymdeithasol, ond odd **social club a tennis courts a squash courts a pavilion lovely** yna – yn ymyl y ffatri. Gallai unrhyw un eu defnyddio gyda'r nos neu ar ddiwrnod bant, neu amser cinio weithie. Ond doedd dim llawer o amser, amser cinio – hanner awr yn unig.

Yn ystod y bore byddech chi'n cael te neu goffi o troli bach yn dod rownd, '**Odd dim arian 'da fi, so on i wastad yn ifed dŵr ne rywbeth.**' *Coffee break* yn y bore, hanner awr i ginio a *coffee break* yn y prynhawn. Roedd hi'n mynd i'r cantîn amser cinio – oedd e'n *subsidised* – odd e'n tshêp iawn. Roedd e'n fwyd da.

Chi YN cofio'ch payslip cynta. Beth fyddech chi wedi neud â'r arian? Och chi'n câl cadw fe, neu roi e i'ch mam?

(*Chwerthiniad bach*) Na'r trwbwl – roi e i'n fam. Popeth – a bydde hi'n rhoi swllt yr wythnos, na swllt y dydd, i fi nôl am fwyd – i'n gino i, a'r arian bys i fi. Fi'n cofio wedi 'ny cocso am ragor o arian, achos odd y merched odd gyda fi yn câl cadw'u arian, nag on nhw? A odd hi'n pallu, so (beth 'nes i wedi 'ny?) (Odi hwnna arno o hyd?) Wel, decides i wedi 'ny siarad â un o'r merched fi'n cwrdda nawr (ma'r nall, Rose, wedi marw), a gweud wrtho hi bo fi ddim yn câl pyrnu dillad na dim byd, on i'n rili llwm, on i fel *church mouse*; ond on nhw gyd mor neis i fi 'chwel, y bobol mor neis i fi, so deceidon ni wedyn – odd un o'r bechgyn – odd e'n mynd i'r *Air Force*, Gareth, a on nhw'n gweud '*He's worried about his mother being on her own*' (Odd hi wedi claddu'i gŵr) a – pwy oedran on i pryd hynny? – undeg wyth ife?, a dyma nhw'n gweud wrth Gareth '*Ask you mother does she want a little girl to come and live with her?*' So dâth e nôl a gweud 'Ie' – wel achos on i dim ond undeg wyth, 'chwel, a daudddeg un odd yr oedran, wel odd 'n boss i Mr Ottenbolson (?) - fi'n credu odd e'n *Swedish* neu rywbeth, wedodd e, '*Listen now, Averil,*' wedodd fe, '*I'll get in touch with a solicitor friend of mine, and see the situation.*' On i'n gallu mynd? A dâth e nôl a wedodd e, 'Yes', bo fi'n gallu mynd ond i ofalu bo fi ddim yn mynd i drwbwl, neu bydde'r heddlu yn gallu hala fi gartre. On i'n meddwl 'Nagw i'n mynd i neud 'na boi! *No way!*'

Roedd y fenyw hon yn byw yn Fforest fach ac roedd hyn yn llawer mwy cyfleus iddi hi i'r gwaith, beth bynnag.

Chi'n dipyn o rebel fi'n meddwl Averil.

Wel na, *circumstances* sy'n hala fi'n rebel. Wel, sa i – wel gobitho i Dduw bo fi ddim, dwi ddim yn ferch sy'n moyn 'n ffordd 'n hunan na pethach fel 'na, ond ma *circumstances* weithe – dyn nhw ddim yn reit. On nhw ddim yn reit.

Roedd Undeb Llafur yn y gwaith ond doeddech chi ddim yn cael bod yn aelod dan 18 oed. Roedd yn rhaid ymuno wedyn. O sabwynt y *payslip*, cred bod yswiriant yn cael ei dynnu allan ohono hefyd (+treth) ar y dechre. '**Peth arall wonderful odd 'da nhw (ife da nhw ges i**

nhw neu gyda ICI?) - och chi'n câl *shares* – on nhw'n rhoi *shares* i chi. A fi'n cofio ni ferched yn ishte – och chi'n câl nhw – on nhw tua punt neu *two pound* yr un, a on nhw gyd yn pregethu – *'We'll keep them 'til they're five pound.'* A unwaith on nhw'n bum punt on nhw'n mynd i werthu nhw, a wedes i, *'Oh, I don't know, ... we'll keep them 'til ten.'*

Mae hi wedi cadw ei rhai hi – aethon nhw lan i *twelve*. – Gan ei fod yn gwmni da i weithio iddo doedd neb yn moyn gadael – **'Chmbod – neb.'** Hyd yn oed pan oedd pobol yn dod i oedran riteiro, on nhw ddim yn moyn mynd. **'Na, odd e'n lle lyfli.'** Dim cof beth oedd enw'r Undeb Llafur ond bydde'r arian aelodaeth yn dod allan o'i phae. Cwpwl o geinioge fyddai hynny.

36.07

Fu dim un streic – **'Byth streic'**. Fu hi ddim yn swyddog Undeb **'Sai'n lico ..'** Credu bod yr arian yn mynd i'r Blaid Lafur ond **'Dwi ddim yn *political* ... dwi ddim yn lico fe.'** (Sôn am Question Time – a bod pop-stars twp yn siarad fwy o sens yn aml)

Doedd y gwaith ddim yn beryglus o gwbl. Gallasai'r *chain machines* fod, ond roedd *guards* drostyn nhw. Doedd dim *Health and Safety* ond roedd popeth yn deidi yna. Mae'n credu y byddai'r dynion a'r rhai newydd yn dechrau yn y gwaith wedi cael gwersi ar weithio'n ddiogel – ond chafodd hi ddim. Gyda'r *chain machines* och chi'n ffido *wires* mewn iddo fe, ond dyw hi ddim yn cofio unrhyw un yn cael *accident* fawr yna.

Gallech fynd at y nyrs am unrhyw beth – pen tost .. a bydde lot o'r merched yn mynd ati adeg *periods*. Gallech chi gael tabledi ganddi a wedyn fydde dim rhaid i chi hala arian i brynu rhai eich hunan.

Roedd y gwres yn y ffatri'n neis a'r gole yn iawn. **'Odd enw lyfli i'r ffatri – *Lightning Zip Factory, Glasnant Works, Waunarlwydd.*'**

Toiledau neis hefyd. Byddai **'*Workers' Playtime* arno ar y *tannoy*. A *'na fe, achos on i ar y switchboard* hefyd – ces i *'nysgu hwnna – un ar ddeg fi'n credu odd *Workers' Playtime - eleven 'til twelve*, och chi'n gorffod ... odd y wireless ... a fi odd yn troi e arno wedi *'ny.'**** Dyma'r unig raglen oedd yn cael ei chwarae o'r radio.

Roedd y menywod yn canu wrth eu gwaith – yn aml. Dyw Averil ddim yn cofio beth oedd yn cael ei ganu – pop, na fyddai hi'n ei wybod gan ei bod yn hen-ffasiwn. Roedd y menywod yn hapus yn eu gwaith.

Roedden nhw'n gorfod gwneud y **'*Basic base rate*, a wedyn on nhw'n cael *bonus*.** Ddim yn cofio faint – ond hyn a hyn y dydd. Fu Averil ddim yng ngofal yr arian yn y ffatri o gwbl – yn gwneud y pae ond bu'n gwneud hynny yn yr ICI mawr. Byddai hi'n cael mynd ar y dechrau, bob dydd Llun i'r *tech*. mawr coch ar ben Mount Pleasant (Abertawe) ac wedyn agorodd Coleg Gorseinon – roedd hi'n un o'r rhai cyntaf yn y coleg hwn, - ac yn astudio Saesneg, a *Shorthand Typing* a *Maths* a *Book-keeping*. Y merched yn y swyddfa i gyd yn neud Saesneg a *Typing* a *Maths*.

Mi roedd sŵn yn y ffatri ond dim sŵn uchel ofnadw. Roedd y merched yn cael siarad wrth eu gwaith. **‘Ond bo nhw ddim yn stopo gwitho. Odd rhaid iddyn nhw gadw gwitho. ... on nhw’n dod, ... sai’n gwobod fel on nhw’n gallu neud e mor gloi, achos on nhw braidd ddim yn dishgwl arno fe. On nhw’n pigo pethach lan, y sliders (y sliders yw top .. y zip) ... yr un chubby yw’r slider; pulley oedd y nall, a bydden nhw’n doddi fe .. a stampo’r mashîn lawr a hwnna’n cloi nhw ‘da’i gilydd a rhedeg lan a lawr y zip wedi ‘ny.’** Roedd yr holl ddarnau hyn wedi cael eu gwneud ar y mashîn yn y gwaith. Dyw Averil ddim yn credu bod y gwaith wedi effeithio ar iechyd y menywod **‘achos odd yr environment mor neis iddyn nhw witho.’**

42.10

Dyw hi ddim yn cofio lot yn gweithio yno ar ôl cael plant. Roedd gan ei ffrind Iris (?) ferch ond roedd ei mam hi’n byw’n agos ati. Mae’n cofio Diane (y ferch) yn pasio’r *scholarship* i fynd i Glan-mor.

Bu Averil yn Lightning Zips tan tua 1962 ac yna symudodd i’r ICI mawr a bu yno tan iddi gael ei mab Ian yn 1967. Roedd wedi priodi yn 1959. Roedd y rhan fwy’n gadael pan yn cael eu plentyn cyntaf. Roedd yn cael gweithio tra’i bod yn disgwyl – credu eu bod yn gweithio lan i dri mis (neu chwe mis) ond oherwydd ei phwysau gwaed hi a toxaemia mor isel, **‘Fi’n cofio gweud wrth y merched bo fi’n mynd i gâl babi, (September bydde fe?) a on i wedi colli babi cyn ‘ny, a wedodd Dr Williams lan yr ‘ewl wrtho i, ‘Once you think you’ve gone, come back and see me.’ A on i mor chuffed nawr, ethes i weld e, ‘Right’ wedodd e, ‘Home to bed.’**

Felly chafodd hi ddim mynd nôl i’r gwaith o gwbl, a bu yn y gwely nes iddi eni’r babi ym mis Mai. Bu mewn ac allan o Mount Pleasant am fisoedd. Gorffennodd hi yn *October* 66 ond aeth ei *notice* ddim i mewn – dwedwyd wrthi am beidio anfon ei *notice* i mewn nes geni’r babi i wneud yn siwr bod popeth yn iawn. Mae’r ffatri hon yn dal i weithio yn Waunarlwydd nawr.

Cwrddodd â’i gŵr, Howard, trwy ffrind yn y ffatri. Roedd hi’n *service girl* mas ar y *sliders*, ac roedd hi’n rhedeg trip i *fireworks* Porth-cawl. Doedd Averil ddim eisie mynd achos roedden nhw i gyd wedi paro lan, ond dwedodd y ferch y byddai Cyril yn dod gyda hi ac eistedd gyda hi. Gweithio ar fferm oedd e - ? tu fas i Dre-gŵyr, dod ar ei feic ond doedd hi ddim yn ei ffansio o gwbl. Ond yna, daeth dyn arall â *push-bike ramshackle*, (dim fel un Cyril), yn rili frwnt, a phenderfynodd ei fod e’n iawn! Roedd ei ffrind yn nabod Howard yn dda a chytunodd e i ddod ar y trip. **‘Odd Howard yn shei ofnadw, cofiwch – fi oedd y blabber yn tŷ ni.’** Teithion nhw o Dre-gŵyr, bron i Borth-cawl a ddwedodd e ddim gair. Ond fel roedden nhw’n mynd i mewn i Borth-cawl dwedodd e *‘Look at those cows in the field over there.’* Ac felly y bu hi ers hynny.

Gweithio ar fferm oedd e – Rhian Fawr ? ond aeth ei gefn yn dost. Felly gofynnodd I’r *Manager* a allai e gael swydd yn yr ICI mawr ar y *slitting machines* ac yno bu e nes iddo gael y strôc. Cafodd e’r strôc pan oedd y bechgyn Ian a Paul tua 4/5 neu 3 /4 oed – (felly tua 1971) ac roedd e yn yr ambiwlans rŵm a *sister* fan’ny, pentost oedd ganddo. Roedd Averil erbyn

hyn wedi dechrau cwrs *nursery nurse* a chan mai dim ond un car oedd ganddyn nhw – hi oedd â'r car, a chât Howard ddim mynd adre nes bod Averil gartre. Daeth hi adre a daethpwyd ag e adre mewn *works' ambulance* - hyn ar y dydd Mercher. Yna yn ystod y nos ar y nos Wener cafodd strôc ddychrynlyd. Mae'n nodi i Howard drïo mynd i'r *Army*, a gwrthodon nhw ei gymryd e a'i anfon nôl at ei ddoctor ond wnaeth Howard ddim byd am y peth. Bu e'n yr ICI am tua 9 mlynedd.

49.12

Yn y ffatri byddai Averil yn cael pythefnos o wyliau y flwyddyn – wythnos ddiwetha *July* a'r cynta o Awst, heb son am ddydd Nadolig a *Boxing Day* a pethach fel 'na – bron tair wythnos o wylie. Roedd y ffatri ar gau yr amserau hyn. Pawb yn mynd eu ffordd eu hunen.

Ond gyda'r rhai iau – '**odd camp site 'da nhw i'r youngsters dan undeg wyth a och chi'n gallu mynd ... a odd e'n weddol tshêp,**' Aeth hi lan 'na – jyst tu fas i Worcester oedd e, a chafodd bwl o *appendix*, felly bu hi yn yr *ambulance tent*, yn gorwedd fan'ny yn gwneud dim byd. Aeth tua 5-6 ohonyn nhw o'r gwaith i'r camp. Roedden nhw'n cysgu mewn tent – ac roedd hyn yn dipyn o newid iddi. Mae'n cofio nhw'n dweud '***Come and queue up now to get your paliasses (?) – Wel – beth diawl yw hwnna? Sai'n gwbod! - ... canvas mawr a man nhw'n llanw fe â gwellt a chi'n doddi shîten ar ben hwnna i chi gal cysgu arno fe.***' Roedd hwn yn syth ar y llawr. Roedd tent mawr yno a phobl yn dod mewn i wneud bwyd iddyn nhw. Unwaith aeth hi yno ac roedd yn rhaid bod dan 18 i fynd yno.

Oedd yna unrhyw harassment yn y gwaith? ... Ma tipyn o sôn am hyn diwrnode 'ma.

Os, os, ond y peth yw chwel, pyrny odd pobol yn cymryd e, nag efe? Chmbod pan on i'r cerdded trwy'r ffatri bydde rhywun yn rhoi slapen ar 'n dîn i, bydden i'n gweud '***Keep your hands to yourself boy!***' a cadw cerdded. Chmbod fydden i ddim yn neud y ffys nawr.'

Odd 'na bobol wedyn yn pilffro o gwbl yn y ffatri - yn mynd â zips gartre?

Odd, odd rhan fwya o'r merched fi'n gwbod, sai'n credu es i â braidd dim un – os on i'n moyn un, gelen i os bydden i'n gofyn i'r *supervisor*, ... câl un (dim rhaid talu) .. dim ond gweud y lliw a pethach fel'na. Fi'n cofio'r rhestter nawr – rhif a lliwie'r zips – ... odd *different* rhif 'da nhw. Ma rhai o'r merched hyn 'da fi nawr (cyfeirio at y ffotograff) – ma nhw wedi ymddeol ers *forty years*, a ma *still zips* 'da nhw yn y tŷ.' Dyw Averil ddim yn siwr a oedd y cwmni'n gwybod fod hyn yn mynd ymlaen a doedden nhw ddim yn chwilio'r merched wrth iddyn nhw adael y gwaith. '**Falle wthnos hyn bydden nhw'n mynd â deg, 'chwel sech chi'n mynd â deg wthnos hyn, falle byddech chi ddim yn mynd â dim am sbel wedyn, meddwl odw i nawr, achos 'nes i ddim o fe, a mynd â deg (zip) mewn mish, wel, gwedwch bo chi'n neud 'na am flwyddyn, nag efe? – bydde digon 'da chi.**' Doedd Averil ddim yn gwneud ei dillad ei hunan, achos odd Iris nawr, a bu farw llynedd yn gofyn iddi hi '***Averil what colour zip do you want, what size do you want?***' *God I don't. .. A fi'n cofio rhai mawr yn dod miwn – rhai mawr i neud cushions ... yr un lleia fi'n credu, odd 3-4 inches, a on nhw'n mynd lan i twenty eight – thirty inches.*' Roedd

lliwiau gwahanol – *three five five odd gwyn a three five six odd du*. Fu hi ddim yn ordro ar ran y ffatri. Ond bu hi'n eu dipatcho – yn ôl yr ordor oedd wedi dod miwn. **'Falle bydden nhw'n gofyn am deg glas ten inch a so many coch ..'** Bydden nhw'n mynd i Birmingham, Leeds, Paisley Glasgow, i ffatrioedd oedd yn gwneud dillad a Brentford, Middlesex.

Mae'n gyfarwydd â'r termau *'Time and Motion'* sef **'dyn â stop watch a clipboard a shîten papur a bydde fe'n gweud nawr "Pick up ... slider, neu rywbeth, and place it there ..."** – roedd e'n fanwl iawn am sut oedd pethe'n cael eu gwneud – bu hi'n teipo sawl un o'r *reports*. Oedd e'n gweud pob peth odd ishe'i neud – yn gwmws. Bydden nhw'n amseru pob peth **'ac os odd e'n meddwl bo chi'n loetran bydde fe'n dweud "You can take two minutes off that, you can do that a bit .. fel 'na."** Roedd pedwar *'time and motion'* dyn gyda ni – mwy yn yr ICI achos odd e'n lle mor fawr.'

55.30

Doedd dim *perks* i'r gwaith. Roedd cinio Nadolig a amser Pasg bydden nhw'n cael cwpla'n gynnwys ar ddydd Gwener y Grogolith **'Fi bob amser wedi gwitho ar ddydd Gwener y Grogolith ... ond fi'n cofio mynd a naethon nhw decido neud cyngerdd jyst mas o'r bobol odd yn gwitho yn y ffatri – a na pryd ych chi'n câl sioc, nag efe? Bernice Evans, o Mount Pleasant odd hi'n byw – odd llais contralto mwya hyfryd da hi. Brenda Davies, nawr, odd hi'n canu. ... fysech chi'n gweld nhw byddech chi'n meddwl "Allith hon ddim neud lot" ond odd talent 'da lot ohonyn nhw, ond nag odd e'n mynd yn bellach. ... Dyle'r ddwy 'na fod fel opera *singers* dim gwitho mewn *zip factory*, chmbod.'** Cawson nhw sawl cyngerdd fel hyn. Y *works council* oedd yn trefnu hyn. Byddech chi'n foto am berson i gynrychioli'r *department* chi ac mae'n credu mai'r *Manager* oedd y *Chair person*, a bydden nhw'n gweud os bydde ishe i ni neud rhywbeth yn well, neu ishe rywbeth arnon ni. Fu Averil ddim ar hwn o gwbl. Doedd hi ddim ishe bod arno. **'On i'n rhy dwp, bydden i ddim wedi gallu neud e.'**

Aeth hi ddim nol i'r ffatri ar ol geni'r bechgyn – byddai wedi hoffi hynny ond erbyn hynny roedd Dorothy Neyland wedi dweud wrthi am fynd i wneud gwaith meithrin (gyd phlant bach) – fel arall bydde hi wedi hoffi gwneud hynny.

Beth yw'r atgofion mwya sydd gyda chi o fod yn gwitho yn y ffatri?

Hapusrwydd, a mae'n rhaid i fi weud, ta ble fi 'di gwitho, sa i 'di gwitho yn llawer o lefydd, ta ble fi wedi bod, fi wastad wedi gwitho gyda pobol neis, neis, neis, yn y Zip ffatri, na fe – Glenys 'n ffrind i, (Nag yw hi yn y llun 'na) mae gyd o nhw wedi bod yn hyfryd i fi, ond fi'n credu, on i mor llwm a mor dwp – na ddim yn dwp, ond on i mor llwm a bechingalw fe, on nhw'n dishgwyl ar ôl fi.'

Mae'n son hefyd sut yr helpodd y Rheolwyr hi pan oedd hi'n symud oddi wrth ei rhieni. Gofynnodd i'w *Boss* **'Can I tell my parents I'm working tomorrow morning?'** am fore dydd Sadwrn chwel, **'Yes'** medde fe **'Come in and then go to Forest fach.'** So gadawes i'r tŷ a on nhw'n meddwl bo fi'n mynd i'r gwaith ... ethes i i'r gwaith, nag on i'n gweud celwydd, ond ethes i ddim nôl. Ethes i'n *straight* i Fforest fach. Wel y dydd Llun 'ny

wedi 'ny ... on i wedi hala llythyr ... iddyn nhw gâl gwbod bo fi'n saff, .. odd yn whiorydd yn gweud wrtho i wedi 'ny – on nhw'n *mad!* A odd Howard ddim yn gwbod dim byd, achos on i'n meddwl – fe gaiff y bai yntefe? .. Fi'n cofio gweud wrtho fe – on i'n gweld e nos Fercher a nos Sadwrn, fel 'ny odd hi bryd hynny yn tefe? “Well i fi gwrdd â ti yn Gorseinon ‘te, yn lle bo nhw'n dod i'r Bont i ercid fi chwel. .. *That was rather exciting!*”

Dim ond os bydde *stocktaking* bydde hi'n gweithio ar ddydd Sadwrn – yr amser yn dibynnu ar faint o waith oedd yna. O safbwynt ei chyflog – mae'n cofio pan aethon nhw i brynu'r tŷ, amser odd Howard yn gwitho ar ffarm, roedd ei gyflog e yn bum punt – chwech punt, - ond roedd ei phae hi yn fwy na'i un ef (tua £8?). Roedd hynny yn *October nineteen sixty two*.

.....

English summary

Lightning Zip Fasteners (part of ICI) and ICI, Waunarlwydd, Swansea

Interviewee: VSW034 Mrs Averil Berrell (nee Matthews)

Date: 2: 03: 2014

Interviewer: Catrin Stevens on behalf of Women's Archive of Wales

Averil confirmed her date of birth as 18: 4: 38.

She thinks she was born on a smallholding outside Felindre. Her family then moved before her sister was born 13 months later at Craig Fawr (on the mountain outside Pontarddulais). She stresses that “mynydd Garnswllt” is a common misnomer for the place.

Averil: ‘I’ve run up and down that [mountain] a thousand times, because when we lived up there, the bus would come into Glyn-hir square [Pontarddulais] and the driver or conductor could see us running on the mountain and they’d wait for us. They wouldn’t do that now would they?’

When she was 5, Averil attended Pontarddulais primary school and broke her heart with the realisation that there was more outside her world of the mountain and Pontarddulais.

To her teacher, Miss Alexander, “**I was a pain...everyone else knew other children. I walked out and somebody found me on the pavement – I was crying because I didn’t know which way to go.**”

Her sister was then allowed to start school at 4.

Averil missed out on Grammar school due to a long bout of ringworm when she was 9. She was home from school for a year. Consequently, she was too far behind the other children in the scholarship class and went to “Top School” (Secondary Modern) where she rose to the top because the “cream” had all gone to Gowerton grammar school.

3.05

Averil left school at 15. A year or so previously, someone had visited the school and told the pupils about typing and shorthand. Averil ended up at a school in Ammanford studying shorthand, typing, book-keeping, English and maths. She has regrets because with hindsight she thinks she would have liked to have been a nurse – but it’s too late now. Averil remembers travelling on the bus to Ammanford with her mother and Ann Lloyd, her friend from Efail Wen. There, she had an interview with the headmistress.

She studied at the school for a year. **“I loved it. You had to go out for lunch... no school dinners...”**

She gained examination certificates (Royal School of Arts or London Commercial College – unsure) At home over Christmas during her second year, Averil’s mother was anxious about school fees so Averil went to the Youth Employment Exchange in Pontarddulais. She was sent for an interview at the Lightning Zip Factory in Waunarlwydd and offered a job as an office girl.

She started at 9, so caught a bus in Pontarddulais and changed in Gorseinon. She worked there for 2 or 3 years. She started in 1954. She remembers the year because 1951 was The Festival of Britain, 1952 – the king died, 1953 was the coronation and 1954 was the year she started work.

8.15

Her mother was mad with her for leaving school. But she didn’t really mind that Averil had gone to work in a factory.

Her first pay was £1 19s 11d. After a few months her payslip showed that 10 d had been deducted for tax. She was flabbergasted. A few months after that she was made a staff member, paid monthly.

Averil’s father was a collier. Before she married, her mother was in service in a preacher’s house opposite St Martin in the Fields in London. Averil’s sister Lena went to work in Hodges’ factory, while her sister Beryl went to Lamas Jamas in Fforestfach. (N.B. This is incorrect – Beryl worked in Hodges and Lena at Lamas Jamas.) Their other sister Gwennie was at home after a childhood accident caused her to suffer fits.

12.00

In the better factories (like Lightning Zips) young workers went to college/tech one day a week. There they studied basic English and Maths and Averil continued her shorthand and typing.

Lightning Zips came under ICI, but they only made zips at the factory.

‘I remember terylene zips coming out...and the director from Birmingham came to talk to us.’

Averil remembers chain zips being made at the factory. A machine cut the chains into teeth and the girls put them together.

The girls on the floor all wore their own overalls, but Averil (in the office) could wear what she liked.

This was a nearly brand new factory – everything was very clean.

‘Beautiful, beautiful – the staff toilets, shone...’

There was also an ambulance room and a full- time “**lovely nurse**”, Sister Jones – if you felt poorly or were taken ill at work, there were 3 or 4 beds.

At first, Averil worked as a messenger girl.

Working hours were 9 to 5 (9 to 4 on Fridays) there was no night shift.

There were plenty of regular buses to travel to work. On the way home she was able to catch the factory bus to Pontarddulais. (The factory buses arrived at work at 7.30am. Averil didn’t start until 9 so she travelled separately)

There were approx. 250 women working at the factory – most of them assembling the zips. The chain dept. and paint shop were men only. There were 2 foremen in dispatch and 3 or 4 men loading boxes onto lorries which delivered the zips to Leeds, Brentford and elsewhere.

After a while, Averil was moved to the *dispatch department*, which she enjoyed – typing invoices.

As well as being a *messenger girl* and working in dispatch Averil worked in the office, typing orders.

20.19

Averil mixed with the girls on the factory floor. Her friends there didn’t regard her differently because she had a job in the office.

The manager, Mr Butcher, and deputy manager, Mr Graves, were sent down from Birmingham. Mr Graves’ daughter worked in the office in the big ICI works.

When the factory closed (1961-2), Averil worked in dispatch. She married in 1959 and 3 years later 6 workers were moved- 3 to the titanium factory, and 3 (including Averil) to the

large ICI works which had made ammunition during the war. The building was camouflaged – painted green and grey. They made steel; ingots and slabs which the casting shop rolled until they were thin. Men worked here mostly – there were only a few women in ICI, in the *inspection department*, a lot of women in the offices. The same was true of the *extrusion mill* – girls in the office and were called by their first names.

23.33

While Averil was there, the work changed from making chain zips to terylene/nylon. **‘And I remember trouser zips coming in.’**

Materials weren’t scarce – everything was brought down from Birmingham. When the factory closed in 1962, everything was sent back to Birmingham. Nobody knew why they closed. Averil thinks the workers were treated well. (Averil shows photographs) She had 2 friends who went to sign on the dole because they’d been made redundant and then went to the (posh) Dragon Hotel for tea.

The office staff (at Lightning) started to go out together every Christmas. There were 9 girls – and because Averil hadn’t been able to join them when they’d gone to the Dragon, they decided to meet every month. And since 1962 they’ve met nearly every month. Although their numbers have dwindled to 2, they still meet regularly.

Averil remembers the food in the factory canteen was “lovely”. They listened to ‘*Music while you work*’ and ‘*Workers’ Playtime*’.

Averil can’t remember what sort of tricks was played on new girls. Nobody played tricks on her but she remembers girls talking about being sent on fools’ errands to fetch non-existent items etc. They went – because you did as you were told, unlike today.

She was afraid of some of the girls at the factory because they were “fit” and nasty. Some of them lived in Gowerton and they were quite forward/bold, whereas Averil was a country “bumpkin” and old fashioned in comparison.

English was the main language of communication at the factory, however Gwyn Davies, a Dispatch Manager from Burry Port, conversed with Averil in Welsh, but hardly anyone else did so.

28.22

Averil recalls that Mr Griffiths, the company carpenter, made her a stand to hold cutlery (which she still possesses). He made it because he liked her and thought she was a “decent girl”.

Some (5%) of the girls used choice language at work which made Averil feel uncomfortable. Sometimes a supervisor would say: **‘now cut it out’**.

At Christmas, the factory arranged a dinner dance for the workers but Averil never went because she doesn't like that sort of thing. There was a children's Christmas party in the canteen (but Averil didn't have any children).

There were approx. 50 men working at the factory (and many more women). **“Once you'd gone there to work, you'd pal up with somebody. I don't know how many from there got married.”**

30.36

There were no football teams or choirs but there was a social club with tennis courts, squash courts and a pavilion next to the factory.

During the morning there was a small trolley which dispensed tea or coffee. Averil didn't have any money so she drank water. There was ½ an hour for lunch and another coffee break in the afternoon. Averil ate lunch in the canteen. The food was subsidised so it was very cheap and it was very good.

Averil gave all of her pay to her mother and received a shilling a day as bus fare to go to work and to pay for lunch. She remembers coaxing her mother to give her more money - all the other girls got to keep their wages – but she refused. Averil then decided to talk to one of the girls who she still sees now and told her that she couldn't buy clothes and was really poor, like a church mouse. Everyone was kind to her and they decided to help her. There was a boy called Gareth who was joining the Air Force. His mother was a widow and: *‘He's worried about his mother being on her own’*. They asked Gareth: *‘Ask your mother does she want a little girl to come and live with her?’* She did, but because Averil was 18 (the age of majority was 21), her boss, Mr Ottenbolson (Swedish) consulted a solicitor. The upshot was that Averil left home and went to live in Fforestfach (which was much more convenient for getting to work in Waunarwydd).

Working for Lightning Zips/ICI the workers were given shares. Some of the girls kept hold of them until they doubled their value to £5 – then cashed them in. Averil kept her shares. (They went up to £12)

As it was such a good company to work for, nobody wanted to leave even when they reached retirement age. **‘It was a lovely place.’**

36.07

When she turned 18 Averil had to join the union, although there was never a strike.

The work wasn't dangerous apart from the chain machines, but they were fitted with guards. Averil thinks that new workers were given safety training. She doesn't remember any accidents at work.

The factory was light and warm. The toilets were “nice” too. “Workers' Playtime” played over the tannoy which Averil operated when she worked on the switchboard.

The girls were happy and sang as they worked – pop songs that Averil wasn't familiar with because she was old fashioned.

They were paid a basic rate for reaching their target and then a bonus. Averil didn't work on the wages/pay section, but she did so when she moved to the big ICI works. At first, she went to Tech every Monday in a big red building on Mt Pleasant (Swansea). Then, Gorseinon College opened and she was among the first students there, where she studied English, Shorthand Typing, Maths and Book-keeping.

The factory wasn't very noisy. The girls were allowed to talk as they worked as long as they didn't stop working. They became so familiar with the work that they could do it without looking. Averil describes the work involving fitting a slider on to a pulley and locking them together with a machine. She doesn't believe the work caused any health issues.

42.10

Not many women worked at the factory after having children. Averil's friend Iris (?) had a daughter, but her mother lived nearby. The daughter (Diane) passed a scholarship to go to Glan-mor.

Averil worked at Lightning Zips until 1962, and then moved to the big ICI works until she had her son Ian in 1967. She'd married in 1959. Most women left after having their first child.

She met her husband, Howard, through a friend in the factory who organised a trip to see fireworks in Porthcawl. Averil didn't have a partner to go with her, but it was arranged that Cyril would accompany her – she didn't fancy him at all. Another man (Howard) turned up on a ramshackle bicycle and ended up going on the trip. He was very shy and didn't utter a single word until they were arriving in Porthcawl. He suddenly spoke: '*Look at those cows in the field over there.*'

Howard was a farmworker until he got a bad back. He then started work at ICI on the slitting machines and was there for 9 years until he had a stroke. Averil notes that Howard had tried joining the army but was rejected and referred back to his doctor. However, he'd not pursued the matter.

49.12

Averil notes the factory holidays: 2 weeks July/August, Christmas and Boxing Day – some 3 weeks in all.

Averil recalls one holiday taken with 5 or 6 workmates to a campsite in Worcester for young people. This was a new experience for her – sleeping on a straw paillasse in a tent. Unfortunately she came down with appendicitis and spent some time in the “ambulance tent”.

When asked if there was any sexual harassment in the workplace, Averil thinks that people accepted more in the past. If she walked through the factory and somebody slapped her

bottom, she'd tell them to '*Keep your hands to yourself boy!*' and walk on. She wouldn't make a fuss.

Most of the girls pilfered zips from work, but Averil remembers that if she wanted a zip, she'd ask a supervisor and be given one. She only had to choose the colour and number. Referring to a photograph of her co-workers, Averil comments that although most of the women retired 40 years ago, some of them have still got zips at home.

Averil's not sure if the company was aware of the pilfering and nobody was searched on their way home. She calculates that if you took 10 zips one week and repeated this every month – after a year you'd have built up quite a reserve of zips.

Averil didn't make her own clothes so she had no need of zips, but she remembers they came in different lengths – from 3 inches to 30 inches – and different colours – 355 was white and 356 was black. They were dispatched to factories in Birmingham, Leeds, Paisley, Glasgow and Brentford, Middlesex.

Averil talks about the 4 Time and Motion men at Lightning Zips (there were more at ICI) with their clipboards and stopwatches. They told workers what to do and timed every aspect of the job. If they thought the worker was dawdling they'd say: "*You can take two minutes off that...*"

55.30

There were no perks at work. They had a Christmas dinner and would finish early on Good Friday. They had a concert where workers took part. This was a revelation to Averil as she had no idea that people were so talented. "**Bernice Evans, from Mount Pleasant – had the most beautiful contralto voice. And Brenda Davies, well, she could sing. ... you'd look at them and think "she's not up to much" but lots of them had talent...those two should have been opera singers not working in a zip factory.**" There were many similar concerts organised by the Works Council.

Averil didn't return to the factory after her 2 boys were born. She would have liked to but was advised by Dorothy Neyland to train as a nursery nurse.

Her overriding memory of working at the factory is one of happiness. She feels fortunate to have worked with nice people – wonderful lovely people who looked after her.

Averil talks about how the manager helped her when she moved away from her parents. She asked her boss: '*Can I tell my parents I'm working tomorrow morning?*' – Saturday you see? '*Yes. Come in and then go to Fforestfach.*' So I left the house and they thought I was going to work – well I wasn't lying – I went to work but I didn't go back. I went straight to Fforestfach. Well on the Monday, I'd sent a letter so they'd know I was safe, my sisters told me that they (parents) were mad! Howard knew nothing about this because I thought they'd blame him. I remember telling him – I used to see him on Wednesday night and Saturday night, that's how things were then weren't they? "*I'd*

***better meet you in Gorseinon then,” in case they came to Bont to fetch me you see?
That was rather exciting!***

She remembers (in terms of her wages) that when they bought their house, Howard earned £5 - £6/week working on a farm, - but Averil earned more – about £8. This was October 1962.